enquiries@ashwales.co.uk
ashcymru
FFEITHIAU AC YSTADEGAU
tel: 029 2064 1101

DEDDFWRIAETH RHEOLI TYBACO YNG NGHYMRU

Y Gwaharddiad ar Ysmygu yng Nghymru

Daeth deddfwriaeth ddi-fwg i rym yng Nghymru ar 2 Ebrill 2007, gan roi terfyn ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig.

Mae'r gydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth wedi adlewyrchu'r gefnogaeth gref ymysg y cyhoedd. Mae adroddiadau oddi wrth awdurdodau lleol yn dangos bod lefelau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ddi-fwg ar draws Cymru oddeutu 97%.[1]

I gael y manylion llawn ynglŷn â'r gwaharddiad ar ysmygu yng Nghymru gweler: ***www.smokingbanwales.co.uk***

Mae cefnogaeth y cyhoedd i'r ddeddfwriaeth yn cynyddu o hyd

Dengys canfyddiadau arolygon barn fod cefnogaeth y cyhoedd, ers i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno, wedi cynyddu i 84% o'r oedolion yng Nghymru (92% o'r rhai nad ydynt yn ysmygu a 63% o'r ysmygwyr)[2]. Cymharer hyn â:

- ✓ 71 y cant o'r oedolion ym mis Chwefror 2006.[3]
- ✓ 77% y cant o'r oedolion ym mis Chwefror 2007 (88 y cant o'r rhai nad oeddynt yn ysmygu a 51 y cant o'r ysmygwyr)[4].

Mae ansawdd yr aer wedi gwella

Gellir monitro ansawdd yr aer trwy fesur lefelau gronynnau a gludir yn yr aer. Mae gwaith monitro gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd wedi dangos bod ansawdd yr aer mewn tafarnau wedi gwella'n sylweddol ers i ddeddfwriaeth ddi-fwg gael ei chyflwyno, gyda lefelau gronynnau wedi gostwng 77% ar gyfartaledd.[5]

---

[1] Gwahardd Smygu Cymru: http://wales.gov.uk/smokingbanwalessub/home/?skip=1&lang=cy.
[2] Gwahardd Smygu Cymru: http://wales.gov.uk/smokingbanwalessub/home/?skip=1&lang=cy.
[3] Gwahardd Smygu Cymru: http://wales.gov.uk/smokingbanwalessub/home/?skip=1&lang=cy.
[4]Gwahardd Smygu Cymru: http://wales.gov.uk/smokingbanwalessub/home/?skip=1&lang=cy.
[5] Prosiect Ymchwil ar Fwg Tybaco yn yr Amgylchedd. CIEH Cymru. 2009.
http://wales.gov.uk/docs/smokingban/publictions/evaluation/091110airqualityreportency.pdf

Mae pobl yn ysmygu llai

Dywedodd 30 y cant o'r ysmygwyr a holwyd mewn Arolwg Omnibws Cymru yn 2008 eu bod yn ysmygu llai o sigaréts ers i'r gwaharddiad gael ei gyflwyno.[6]

Mae mwy o bobl yn rhoi'r gorau i ysmygu

Mae Dim Ysmygu Cymru wedi dweud bod 20 y cant yn fwy o bobl yn cysylltu â'r gwasanaeth wrth ymateb i gyflwyno'r ddeddfwriaeth ddi-fwg. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth grŵp ac un i un i helpu ysmygwyr i roi'r gorau iddi.[7]

Monitro a gwerthuso'r ddeddfwriaeth ddi-fwg

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth ddi-fwg.

Deddfwriaeth yn y dyfodol

Ar 12 Tachwedd 2009 cafodd y Mesur Iechyd Gydsyniad Brenhinol a daeth yn Ddeddf Iechyd 2009. Mae'r Ddeddf Iechyd yn cynnwys mesurau tybaco i wahardd gwerthu cynhyrchion tybaco o unedau arddangos mewn mannau gwerthu erbyn mis Hydref 2011 (i fanwerthwyr mwy) a mis Hydref 2013 (i fanwerthwyr llai) yng Nghymru. Erbyn mis Hydref 2011, bydd gwerthu cynhyrchion tybaco o beiriannau gwerthu yn cael ei wahardd yng Nghymru.

[6] http://wales.gov.uk/topics/statistics/publications/healthsurvey2008/?lang=en
[7] http://www.stopsmokingwales.com